



## Gofal o dan yr Enfys

# Cwrdd â'r Tîm

### Dr Paul Willis

Ymchwilydd ac uwch ddarlithydd gwaith cymdeithasol gydag oedolion ym Mhrifysgol Bryste yw Paul. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae Paul wedi bod yn arwain ac yn cymryd rhan mewn nifer o brosiectau ymchwil sy'n edrych ar ffyrdd o ddarparu gwasanaethau cartref gofal mwy cynhwysol ar gyfer pobl hŷn LHDT+ yng Nghymru a Lloegr. Mae ei feysydd ymchwil yn cynnwys: profiadau dynion hŷn o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol; rhywioldeb, gofal a heneiddio; hunaniaeth rhywedd a heneiddio traws; darpariaeth gofal cynhwysol ar gyfer grwpiau pobl hŷn amrywiol; ac iechyd a lles pobl ifanc LHDT+. Cymhwysodd Paul fel gweithiwr cymdeithasol yn Tasmania (Awstralia) yn 2002, ac mae ei brofiad blaenorol o ymarfer yn cynnwys gwaith cymdeithasol mewn ysgolion gyda phlant a phobl ifanc (swydd statudol) a gwaith cymunedol a chwnsela gyda grwpiau rhywiol a rhywedd lleiafrifol (asiantaeth wirfoddol).




### Dr Wenjing Zhang

Cydymaith ymchwil yn Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste yw Wenjing. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar heneiddio a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn. Mae wedi gweithio ar brosiectau ymchwil sy'n canolbwyntio ar bolisi ac ar arfer.

Mae'n gweithio ym meysydd gerontoleg cymdeithasol a gweithredu polisi cyhoeddus, ac yn canolbwyntio'n benodol ar addasu ac ehangu cysyniadau a ddatblygwyd mewn cyd-destun gorllewinol i astudiaethau ar weithredu polisi y Nwyrain Asia.

O ran prosiect "Gofal o dan yr Enfys", ei rôl oedd nodi argymhellion a chanfyddiadau allweddol o astudiaethau achos, llunio deunyddiau dysgu i lywio addysg barhaus ar



gyfer staff a rheolwyr cartrefi gofal, cydlynu cyfweiliadau ffilm, a dosbarthu adnoddau dysgu i gartrefi gofal ledled Cymru a Lloegr.

Gyda Chronfa Strategol Ryngwladol Prifysgol Bryste (2018-2019), arweiniodd ar waith cydweithredol traws-wladol gyda Phrifysgol Fudan ar y pwnc “Gofal Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn a Thueddiadau Marchnadeiddio” yn Shanghai, Tsieina. Gwahoddwyd Berkeley Wilde - cyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Amrywiaeth - i roi areithiau ym maes “Cynhwysiant LHDT+” ac i gyflwyno'r prosiect “Gofal o dan yr Enfys” yn Shanghai. Mae'r sgysiau hyn wedi codi ymwybyddiaeth o hawliau LHDT+ mewn cyd-destun byd-eang, ynghyd â'r heriau wrth gynyddu cynhwysiant yn Tsieina.

## Berkeley Wilde

Mae Berkeley Wilde, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, wedi bod yn gweithio fel ymgynghorydd, ymchwilydd a hyfforddwr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ers dros ugain mlynedd. Mae'n arbenigo ym maes ymgynghori ac ymgysylltu, ynghyd ag ymchwil ansoddol, gyda chymunedau cydraddoldeb. Mae'n angerddol dros gydlynid cymunedol, datblygiad, grymuso ac arweinyddiaeth gymunedol, ynghyd â newid cymdeithasol.

Mae wedi cydweithio â Next Link, Missing Link, Safe Link a Safe Lives ar wella mynediad at wasanaethau trais a cham-drin domestig. Yn 2016, enillodd Wobr Ann Wood am Gyfraniad Nodedig yn Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig yn Ne Swydd Gaerloyw.

Yn y gorffennol, mae wedi gweithio gydag elusennau cenedlaethol gan gynnwys Mind, Relate ac Ymddiriedolaeth Terrence Higgins. Fel rhan o'i waith bu ym Mrwsel yn gweithio gyda sefydliadau anllywodraethol ar ddatrys anghydraddoldebau iechyd. Mae Berkeley'n falch hefyd o'i waith pro bono fel un o Fodelau Rôl Ysgolion Stonewall ac fel un o Ymddiriedolwyr CVS De Swydd Gaerloyw a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Anabled.

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, mis Mawrth 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i [www.diversitytrust.org.uk/](http://www.diversitytrust.org.uk/)

